# ATODIAD 1 - Crynodeb Gweithredol

## E1 – Am y ddogfen hon

Mae'r tabl isod yn dangos sut mae'r ddogfen wedi'i threfnu

| | |
|---|---|
| **Rhagarweiniad** | Cyflwyniad i rôl Taith yng Ngogledd Cymru a'r cefndir statudol i'r gwaith o baratoi Cynllun Cludiant Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru. |
| **Y Cyd-destun Cynllunio Cenedlaethol a Rhanbarthol** | Fframweithiau Cenedlaethol a Rhanbarthol eraill y mae'r Cynllun Cludiant Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru yn berthnasol iddynt. |
| **Problemau a Chyfleon gyda Thrafnidiaeth yng Ngogledd Cymru** | Dadansoddiad o'r problemau a'r cyfleon o fewn y gwasanaethau trafnidiaeth yng Ngogledd Cymru gan gynnwys materion sy'n croesdorri. |
| **Datblygu Cynllun Cludiant Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru** | Y broses a ddilynwyd gan Taith wrth roddi'r Cynllun Cludiant Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru at ei gilydd. |
| **Strategaethau a Rhaglenni**<br>**Gwerthuso** | Sut y cafodd strategaethau a rhaglenni Taith eu datblygu a'u gwerthuso. |
| **Materion sy'n Croesdorri a Materion ar gyfer y Dyfodol**<br>**Cyflwyno** | Materion pwysig sy'n cael effaith ar Gludiant, datblygiadau yn y dyfodol a sut y bydd Taith yn cyflwyno'r Cynllun Cludiant Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru. |

## E2 – Taith

Taith yw Consortiwm Cludiant Rhanbarthol Gogledd Cymru, grŵp o'r chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru sydd wedi cael y cyfrifoldeb gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i baratoi Cynllun Cludiant Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru. Mae yna bedwar Consortiwm i gyd. Mae'r lleill yn delio gyda Chanolbarth Cymru (TraCC), De Ddwyrain Cymru (SEWTA) a De Orllewin Cymru (SWWITCH).

## E 3 – Pam 'rydym yn darparu Cynllun Cludiant Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru

Mae bron pob gweithgaredd yn dibynnu ar gludiant p'un a yw hynny i symud pobl neu nwyddau. Strategaeth yw'r Cynllun Cludiant Rhanbarthol (CCRh) ar gyfer Gogledd Cymru i nodi a chyflawni gwelliannau i'n system drafnidiaeth yng Ngogledd Cymru dros y 25 mlynedd nesaf. Caiff ei osod nid yn unig yng nghyd-destun polisïau cenedlaethol ond hefyd yng nghyd-destun y dyheadau economaidd a chymdeithasol a chynlluniau datblygu'r chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru.

Yn unol â Deddf Trafnidiaeth Cymru 2006, rhaid i Gonsortiwm Cludiant Taith baratoi Cynllun Cludiant Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru sy'n gyson â Strategaeth Gludiant Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Cymru gyfan. Mae yna ystyriaethau pwysig eraill megis gwarchod a gwella tirweddau a threftadaeth byd enwog Gogledd Cymru a chymryd camau i leihau effeithiau andwyol cludiant ar yr amgylchedd a'r hinsawdd. Ynghyd â'r Cynllun Cludiant Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru ei hun, rhaid i Taith hefyd baratoi Gwerthusiad Amgylcheddol Strategol (GAS).

## E4 – Cludiant i ac o Ogledd Cymru

Mae Gogledd Cymru yn rhanbarth mawr ac amrywiol ond nid yw'n hunangynhaliol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi paratoi Cynllun Gofodol Cymru (CGC) sy'n darparu fframwaith cynllunio cenedlaethol a rydd gyd-destun i Strategaeth Trafnidiaeth Cymru (STC) a Chynlluniau Cludiant Rhanbarthol y pedwar consortiwm. Maent yn awr wrthi'n paratoi Cynllun Cludiant Cenedlaethol a fydd â goblygiadau pwysig i Ogledd Cymru oherwydd bod y cefnffyrdd cenedlaethol a'r rhwydweithiau rheilffyrdd hefyd yn cario gwasanaethau rhanbarthol a lleol. Mae Gogledd Cymru yn edrych fwyfwy i'r brif ddinas, Caerdydd, fel canolfan y llywodraeth a llawer iawn o fusnes cenedlaethol. Mae maniffesto Cymru'n Un yn pwysleisio pwysigrwydd cysylltiadau rheilffyrdd rhwng y Gogledd a'r De i Gymru fel cenedl. Rhaid i'r Cynllun Cludiant Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru roi sylw i sut y mae materion sy'n ymwneud â lonydd, rheilffyrdd, cysylltiadau awyr a phorthladdoedd yn genedlaethol yn cael effaith ar ein hanghenion rhanbarthol ac adrodd yn ôl i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Wedyn dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gymryd ein hanghenion rhanbarthol i ystyriaeth pan maent yn cysidro cysylltiadau a gwasanaethau cludiant cenedlaethol, er mwyn sicrhau bod modd cyflawni nodau ac amcanion y Cynllun Cludiant Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru yn llwyddiannus.

Mae Gogledd Cymru hefyd yn borth strategol i Iwerddon a Gogledd-Orllewin Lloegr ynghyd â'i gysylltiadau â gweddill Cymru. O'r herwydd, mae Taith wedi sefydlu cysylltiadau agos gydag awdurdodau Lloegr ac Iwerddon ynghyd â TraCC i sicrhau bod gofynion cludiant "trawsffiniol" yn cael eu nodi a bod camau priodol yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau pob awdurdod perthnasol.

## E5 - Gweledigaeth a Blaenoriaethau'r CCRh

Mae gweledigaeth Taith ar gyfer cludiant yng Ngogledd Cymru yn adlewyrchu amrywiaeth gyfoethog y rhanbarth, sef:

***"Bydd Taith yn darparu rhwydweithiau cludiant diogel, cynaliadwy ac effeithlon i gefnogi gweithgareddau economaidd a chymdeithasol cymunedau a busnesau amrywiol Gogledd Cymru o gofio ei rôl Ewropeaidd strategol."***

Yn deillio o hyn, ac o ofynion y Strategaeth Gludiant ar gyfer Cymru, penderfynwyd ar amcanion a naw o flaenoriaethau rhanbarthol sydd wedi siapio ein cynigion ar gyfer datblygu systemau cludiant sy'n effeithiol o safbwynt economaidd ac sy'n amgylcheddol gynaliadwy er mwyn gwasanaethu cymunedau a busnesau Gogledd Cymru. Y blaenoriaethau yw:

1. ***Cwrdd â gofynion cludiant amrywiol Gogledd Cymru yn effeithlon***
   Darparu rhwydwaith cludiant i Ogledd Cymru sy'n cydnabod amrywiaeth ddaearyddol a chymdeithasol y rhanbarth gan wneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau sydd ar gael fel y gellir symud pobl a nwyddau yn effeithlon.

2. ***Proffil a pherfformiad y gwasanaeth cludiant i deithwyr***
   Codi proffil a pherfformiad gwasanaethau cludiant cyhoeddus yng Ngogledd Cymru o fewn system integredig sy'n cynnwys trenau, gwasanaethau bws a bysus gwyliau cyflym o safon uchel rhwng y trefi, rhwydweithiau bws lleol gwell a chymysgedd priodol o wasanaethau sy'n ymwneud â cherbydau llai mewn ardaloedd gwledig.

3. ***Lleihau tagfeydd ac amseroedd teithiau***
   Datrys y problemau tagfeydd a mynediad i'r priffyrdd.

4. ***Cefnogi datblygiad***
   Cefnogi datblygiad trefi a chanolfannau allweddol eraill i wella eu hyfywdra economaidd a hyrwyddo datblygiadau cynaliadwy a gwella'r amgylchedd.

5. ***Rhwydweithiau cludiant sy'n saff, yn effeithlon ac yn gynaliadwy***
   Cynnal rhwydweithiau cludiant sy'n saff, yn effeithlon ac yn fwy cynaliadwy.

6. ***Gwella gwasanaethau rheilffyrdd i Ogledd Cymru***
   Ceisio gwella'r holl wasanaethau a chyfleusterau i deithwyr ar y rheilffyrdd yng Ngogledd Cymru.

7. ***Symud nwyddau mewn modd sy'n amgylcheddol gyfeillgar ac yn effeithlon***
   Gwella lonydd, rheilffyrdd a therfynfeydd mewn cydweithrediad gydag asiantaethau a chwmnïau cenedlaethol a rhanbarthol.

8. ***Cynllunio a rheoli traffig " Smart"***
   Sefydlu rhwydwaith monitro, gwybodaeth a rheoli traffig integredig ar gyfer Gogledd Cymru a cheisio hyrwyddo dulliau mwy cynaliadwy o deithio drwy gynllunio teithiau ac addysgu pobl yn well o safbwynt dewisiadau teithio effeithlon a thechnegau dreifio.

9. ***Cludiant cynaliadwy***
   Ychwanegu at y nifer o drigolion ac ymwelwyr sy'n beicio ac yn cerdded.

## E6 - Ymyriadau a rhaglen 5 mlynedd

Wedi datblygu ein blaenoriaethau cludiant rhanbarthol, cynigiwyd strategaethau rhanbarthol ac mae ymyriadau (polisïau a phrosiectau cludiant) wedi cael eu datblygu i'w gweithredu. Fel sy'n ofynnol gan ganllawiau STC, rhoddwyd prawf ar dri opsiwn strategol drwy ddefnyddio pecyn gwerthuso WelTAG a chyflwynwyd rhaglenni gwariant 5 mlynedd yn y CCRh fel bid i'w hystyried gan Lywodraeth Cynulliad Cymru am gyllid o £**xxx** miliwn o wariant cyfalaf dros y cyfnod Ebrill 2010 i Fawrth 2015. Bydd y rhaglenni yn darparu manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol drwy gyfuniad o ymyriadau gan gynnwys cludiant cyhoeddus, cerdded a beicio, strategaeth ar gyfer cludo nwyddau, ymwybyddiaeth amgylcheddol a hyfforddiant, diogelwch ar y ffyrdd, rheoli cludiant mewn modd integredig a gwella'r rhwydwaith priffyrdd. Rydym wedi ystyried pob math o gludiant, cludo nwyddau a theithwyr, cyhoeddus a phreifat, tacsis a thrafnidiaeth gymunedol, ffyrdd a rheilffyrdd, awyr a môr mewn modd cynhwysfawr er mwyn rhoi sylw i anghenion cludiant Gogledd Cymru.

## E7 – Ymgynghori

Wrth lunio'r CCRh ar gyfer Gogledd Cymru, rydym wedi ymgynghori gyda chydranddeiliaid mewn busnesau a'r gymuned a hynny mewn achlysuron penodol a oedd yn rhoi sylw i'r CCRh a'r GAS a hefyd mewn sesiynau "un-i-un" gyda grwpiau penodol megis cwmnïau cludiant cyhoeddus a chymunedol, cynrychiolwyr busnes ac eraill. Mewn ymarfer ymgynghori cyhoeddus eang yn ystod haf 2008, cafwyd ymateb da a chadarnhaol iawn drwy ymatebion i holiadur ar y rhyngrwyd a thrwy'r post.

## E8 – Darparu a Monitro

Mae Taith yn awr wrthi'n paratoi i gyflwyno ei gynigion gan symud o'r cam cynllunio i flaenoriaethu'r gwahanol gynlluniau ar gyfer eu gweithredu pan wyddys beth fydd y lefelau cyllido. Er mai prif ffynhonnell y cyllid fydd grantiau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, bydd Taith yn ceisio arian gan nifer o gyrff eraill gan gynnwys cronfeydd Cymuned Ewropeaidd, cyfraniadau gan ddatblygwyr a fydd yn manteisio yn y dyfodol oherwydd gwell mynediad i'w safleoedd a'r incwm a ddaw yn sgil y defnydd o wasanaethau cludiant cyhoeddus a chyfleusterau megis parcio.

Nododd allweddol o CCRh Gogledd Cymru yw strategaeth gadarn i gasglu a monitro data. Bydd hyn yn sylfaen gadarn ar gyfer datblygu strategaethau a rhaglenni cludiant cryf i Ogledd Cymru.